

HYFFORDDIANT AR-LEIN I GYNGHORWYR

DEALL CYLLID LLYWODRAETH LEOL

BETH SYDD AR GAEL?

Paratowyd y deunyddiau hyfforddiant ar-lein i'ch cynorthwyo chi i ddatblygu eich corff o wybodaeth fel Cynghorydd.

Mae'r deunyddiau'n trafod 7 maes penodol, ac mae 'Deall Cyllid Llywodraeth Leol' yn un ohonynt. Mae'r deunyddiau eraill yn ymwneud â Chynefino, y Cod Ymddygiad, y Cyngor yn Gyflogydd, Deall y Gyfraith, Iechyd a Diogelwch ac Amrywiaeth a Chynhwysiant.

RHOI CYCHWYN ARNI

Mae'r modiwl hwn yn trafod 'Deall Cyllid Llywodraeth Leol' ac mae'n mynd trwy'r elfennau allweddol canlynol:-

- ▶ Egwyddorion cyffredinol cyfrifo
- ▶ Canllawiau cyfrifo a strategaethau
- ▶ Rheoliadau Ariannol ac Aseidiadau Risg
- ▶ Cyllidebau a phraeseptau
- ▶ Archwilio Mewnol ac Allanol
- ▶ Yswiriant
- ▶ Grymoedd Incwm a Gwariant
- ▶ Ffynonellau cyngor eraill

PWRPAS Y MODIWL

Yw eich cefnogi i:-

- ▶ Gynnal fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli adnoddau ariannol y Cyngor
- ▶ Deall y termau cyffredin a'r fframwaith rheoleiddiol
- ▶ Deall y grymoedd a'r ffynonellau incwm sydd ar gael i'r Cyngor

RHAI DIFFINIADAU PWYSIG

I ddechrau, dewch inni edrych ar rai diffiniadau pwysig:-

- ▶ Llif arian – gorged a diffyg
- ▶ Derbyniadau, taliadau a'r llyfr arian
- ▶ Incwm a gwariant, dyledwyr a chredydwyr
- ▶ Asedau a rhwymedigaethau
- ▶ Cyllidebau, praeseptau a chynlluniau busnes
- ▶ Archwiliadau ac arfer cyfrifo
- ▶ Yswiriant ac indemniadau

Y cam nesaf yw edrych ar bob un yn fanylach.....

LLIF ARIAN

- ▶ Bydd arian yn llifo i mewn ac allan o'r Cyngor
- ▶ Ystyr gorged yw pan mae mwy o arian yn dod i mewn nac yn mynd allan
- ▶ Ystyr diffyg yw pan mae mwy o arian yn mynd allan nac sy'n dod i mewn
- ▶ Mae cyfnodau amser yn bwysig, oherwydd er y gall diffygion misol ddigwydd gall hyn unioni ei hun dros y flwyddyn
- ▶ Mae'n bwysig felly fod y SAC yn rheoli'r llif arian ac yn gwneud adroddiadau rheolaidd i'r Cyngor ar sefyllfaoedd y mae angen adrodd yn eu cylch

DERBYNIADAU A THALIADAU

- ▶ Yr enw ar gynllunio taliadau a derbyniadau unigol yw rheoli'r llif arian
- ▶ Rhaid cofnodi pob derbyniad a thaliad yn llyfr arian y Cyngor – efallai mai'r llyfr arian yw'r cofnod cyfrifo pwysicaf. Nid oes unrhyw fformat rhagnodedig iddo, a gall fod yn llyfr nodiadau, cyfriflyfr, taenlen neu becyn cyfrifo arbenigol
- ▶ Mae'n hollbwysig fod y llyfr arian yn cael ei gysoni'n rheolaidd gyda datganiadau banc a bod hynny'n cael ei adrodd i'r Cyngor

INCWM A GWARIANT

- ▶ Rhaid i gynghorau a chanddynt dderbyniadau neu daliadau dros £200k gynhyrchu cyfrif incwm a gwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol
- ▶ Mae cyfrifon incwm a gwariant yn cyfateb i'r trafodion yn y cyfnod y maent yn ymwneud ag ef
- ▶ Gwneir addasiadau ar gyfer dyledwyr, credydwyr, croniadau a rhagdaliadau (e.e. efallai na fydd arian o archeb i ddefnyddio'r Neuadd yn cael ei dderbyn tan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ond rhaid i'r swm dyledus gael ei gredydu i'r flwyddyn y dylai'r incwm fod wedi cael ei dderbyn ynddi)

ASEDAU A RHWYMEDIGAETHAU

- ▶ Mae ased yn rhywbeth sy'n eiddo i'r Cyngor y mae iddo werth ariannol e.e. mae ased byrdymor yn arian yn y banc, a gallai ased hirdymor fod yn dir y mae'r Cyngor yn berchen arno na ellir ei ddefnyddio yn y tymor byr ar gyfer unrhyw bwrpas penodol
- ▶ Mae rhwymedigaeth yn addewid a wnaed i dalu am rywbeth yn y dyfodol e.e. ad-dalu benthyciad
- ▶ Rhaid paratoi mantolen ar gyfer Cynghorau a chanddynt gyllideb incwm/gwariant flynyddol dros £200k sy'n cofnodi'r holl asedau a rhwymedigaethau
- ▶ Mae'n syniad da i Gynghorau baratoi cynllun busnes yn cwmpasu sawl blwyddyn y gellir ei ddefnyddio i gynllunio gwariant i'r dyfodol

CYLLIDEBAU A PHRAESEPTAU

- ▶ Mae cymeradwyo cyllideb yn ofyniad cyfreithiol (Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992)
- ▶ Dylai fod yn fanwl-gywir a dylid ei llunio'n ofalus
- ▶ Dylai adlewyrchu dyheadau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod
- ▶ Mae'r gyllideb ynghyd ag asesiad o lefel yr arian wrth gefn yn cyfrannu at y penderfyniad ar lefel y praesept
- ▶ Dylid cytuno'r praesept ym mis Ionawr bob blwyddyn ar gyfer ei gyflwyno i'r prif gyngor

TREFNIADAU ARCHWILIO

- ▶ Mae archwiliad yn broses o wirio cyfrifon y Cyngor i sicrhau eu bod yn fanwl-gywir a'u bod yn adlewyrchiad teg o'r gweithgarwch a gyflawnwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol
- ▶ Mae'r Archwilydd Mewnol yn profi dilysrwydd y cyfrifon a'r amgylchedd rheolaeth ariannol (mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2014 yn mynnu fod pob Cyngor yn rhoi trefn archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar waith)
- ▶ Mae canllawiau ynghylch penodi Archwilwyr Mewnol yn gynwysedig yn y Canllaw i Ymarferwyr ar Lywodraethiant ac Atebolrwydd 2014) – bydd gan eich Clerc gopi y gallech ei ddefnyddio
- ▶ Mae gan y Cyngor ddyletswydd i gynhyrchu datganiad blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn man pellaf

TREFNIADAU ARCHWILIO (PARHAD)

- ▶ Caiff y datganiad blynyddol ei archwilio'n allanol bob blwyddyn gan Archwilydd Allanol a benodir gan Swyddfa Archwilio Cymru
- ▶ Mae'r datganiad blynyddol yn cynnwys nifer o adrannau i'w llenwi, gan gynnwys datganiad cryno o'r cyfrifon, datganiad o sicrwydd ac adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol
- ▶ Ymhob blwyddyn archwilio cynhwysir nifer o themâu penodol yn yr archwiliad ac fe'u cyhoeddir cyn cychwyn y broses archwilio flynyddol
- ▶ Mae archwiliadau yn seiliedig ar gysyniad 'sicrwydd rhesymol.'
- ▶ Gall archwilwyr allanol gyflwyno barn ddiamod neu farn amodol a gallant wneud argymhellion i'w hystyried gan Gyngorau.

YSWIRIANT AC INDEMNIADAU

- ▶ Rhaid i Gyngor yswirio ei hun
- ▶ Bydd hyn yn cynnwys yswiriant trydydd parti a rhwymedigaeth cyflogydd ac yswiriant ar gyfer eiddo y mae'n berchen arno neu'n ei lesio, ffyddlondeb, arian, damweiniau personol, enllib ac athrod, treuliau cyfreithiol a cherbydau modur
- ▶ Mae'r rhan fwyaf o yswirwyr arbenigol yn cynnig polisïau cyfunol er mwyn diwallu anghenion penodol Cyngorau
- ▶ Dylai Cyngorau indemnio ei aelodau er mwyn cynnig sicrwydd iddynt wedi iddynt gael eu penodi i wasanaethu ar gyrff eraill

Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL (SAC)

- ▶ Rhaid i bob Cyngor gael un (Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972)
- ▶ Yn aml iawn mae'r Clerc yn cyflawni'r rôl o fewn eu disgrifiad swydd
- ▶ Mae'r SAC yn penderfynu ar fformat cyfrifon y Cyngor ac mae'n gyfrifol am gadw'r holl gofnodion ategol ac am sicrhau eu bod yn gyfredol
- ▶ Mae'r SAC yn cwblhau'r cofnodion ar gyfer eu harchwilio cyn gynted ag y bo modd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol

BETH MAE'N RHAID I'R CYNGOR EI WNEUD YN GYFREITHIOL

- ▶ Penodi Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC)
- ▶ Diffinio dyletswyddau'r SAC
- ▶ Rhaid iddo drefnu system archwilio ddigonol ac effeithiol yn seiliedig ar drefniant sicrwydd cyfyngedig
- ▶ Rhaid cymeradwyo cyfrifon diwedd blwyddyn erbyn 30 Mehefin
- ▶ Rhaid cyhoeddi cyfrifon erbyn 30 Medi

DYLETSWYDDAU ERAILL Y CYNGOR

- ▶ Cymryd camau i atal a darganfod twyll – nid oes unrhyw bwrpas cau drws y stabl wedi i'r ceffyl ddianc
- ▶ Nodi holl ddyletswyddau personél sy'n delio â materion ariannol
- ▶ Dileu dyledion drwg, ond dim ond wedi cael cymeradwyaeth y SAC
- ▶ Yn fwy na dim, gofalu fod y Cyngor yn cyflawni rôl graffu a monitro briodol o ran rheoli ei arian

RHEOLIADAU ARIANNOL

- ▶ Dylai pob Cyngor gymeradwyo set o reoliadau ariannol sy'n amlinellu'r trefniadau ariannol, gan nodi cofnodion i'w cadw ac amlinellu dyletswyddau'r SAC
- ▶ Byddant yn cynnwys trefniadau ar gyfer paratoi'r gyllideb, camau rheoli'r gyllideb, trefniadau talu a bancio, camau cyfrifo/archwilio/rheoli risgiau, benthyciadau a buddsoddiadau, gweinyddu prosesau incwm a phrynu a chontractau
- ▶ Mae model reoliadau ar gael i aelodau Un Llais Cymru

ASESIAD RISG

- ▶ Ffordd dda o gadw llygad barcud ar y sefyllfa ariannol yw cynnal asesiad risg
- ▶ Mae pob elfen o risg yn cael eu hystyried ar wahân e.e. lefel yr arian wrth gefn cyffredinol
- ▶ Rydych wedyn yn edrych ar ganlyniad y risg a'r tebygrwydd y bydd yn digwydd gan ddefnyddio dull sy'n creu sgôr difrifoldeb ar gyfer pob risg
- ▶ Ar gyfer pob risg a nodwyd rydych yn amlinellu camau y gellir eu cymryd i leihau, cyfyngu neu reoli'r risg
- ▶ Yna fe ddefnyddir y gofrestr risg i fonitro'r sefyllfa yn rheolaidd

GRYMOEDD GWARIANT

- ▶ Mae'r gyfraith yn nodi ar beth y mae gan Gyngorau y grym i wario arian
- ▶ Mae Deddfau Seneddol a Deddfau/Mesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi grymoedd gwariant i Gyngorau ar gyfer eitemau neu wasanaethau penodol
- ▶ Os yw Cyngor yn gwario arian ar eitemau neu wasanaethau nad oes grym gwariant ar eu cyfer gallent fod yn gweithredu'n 'ultra vires' h.y. y tu hwnt i'w grymoedd

FFYNONELLAU INCWM ERAILL

Gallant gynnwys:

- ▶ Arian a rennir trwy waith partneriaeth
- ▶ Grantiau
- ▶ Derbyniadau o amwynderau e.e. taliadau archebu neuadd bentref
- ▶ Rhoddion Elusennol
- ▶ Ardoll Seilwaith Cymunedol gan y prif awdurdod
- ▶ Hawliau benthyca a benthyg
- ▶ Cronfeydd Cymunedol e.e. ffermydd gwynt

DEFNYDDIO ARIAN YN DDOETH

Yr her yw gweithio'n effeithiol er mwyn chwilio am ffynonellau ariannol ond hefyd er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau ariannol sydd ar gael a chyfrif amdanynt a'u cofnodi mewn ffordd agored a thryloyw.

BETH AM BROFI EICH HUN

Ceisiwch ateb y canlynol :-

- 1) Esboniwch y gwahaniaeth rhwng ased a rhwymedigaeth.
- 2) Pam mae hi'n bwysig datblygu cyllideb flynyddol?
- 3) Esboniwch y gwahaniaeth rhwng archwilio mewnol ac allanol.
- 4) Pam mae asesiad risg yn nodwedd bwysig o reoli adnoddau'r Cyngor?
- 5) Sut fydddech chi'n esbonio'r term 'ultra vires?'

BETH NESAF?

Gan fod gennych erbyn hyn ddealltwriaeth sylfaenol o Gyllid Llywodraeth Leol, awgrymir yn gryf y dylech ofyn i'ch Cyngor roi'r cyfle ichi fynd ar gwrs hyfforddiant ar y pwnc yma.

Mae'r hyfforddiant a gynigir gan Un Llais Cymru yn rhyngweithiol ac mae'n archwilio holl elfennau rôl ariannol y Cyngor yn y manylder y byddech yn ei ddisgwyl gan eich corff cynrychioliadol. Bydd hefyd yn rhoi'r cyfle ichi ymgysylltu â Chynghorwyr er mwyn eich galluogi i rannu profiadau a dysgu oddi wrth eich grŵp cymheiriaid.